




HEDDWCH

Rhifyn 70 > Gaeaf 2018-19 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear

Dai Owen



Y Gwir yn erbyn Pŵer

Codi llais yn erbyn yr hunllef niwclear.

Codwch eich llais yn erbyn awyrennau bomio llechwraidd, taflegrau Trident, trychinebau niwclear, gwerthu bomiau i ormeswyr, ras arfau newydd, a militariaeth yn ein hysgolion.

Siaradwch o blaid hawliau dynol, cyfraith a chydweithrediad rhyngwladol, tryloywder, atebolrwydd, democratiaeth a heddwch â chyfiawnder.

Codwch eich llais er mwyn ein plant a phlant ein plant.

COELCERTH Y CYTUNDEBAU GAN TRUMP

*Ym Mai 2018, tynnodd UDA allan o'r cytundeb niwclear gydag Iran ac mae bellach wedi ailosod sancsiynau, gan gynyddu'r perygl o ryfel a rhwystro gobeithion am ddiwygio gwleidyddol o fewn Iran. Ym mis Hydref, nododd Trump ei fod yn bwriadu dileu'r Cytundeb INF hollbwysig hefyd. Mae **Brian Jones** yn ystyried y canlyniadau.*

Arwyddo Cytundeb Lluedd Niwclear Ystod-Canolradd 1987 (INF) oedd dechrau diwedd y Rhyfel Oer. Cafodd ei negydu gan Ronald Reagan a Mikhail Gorbachev yn sgil protestio eang yn erbyn lleoli'r arfau hyn yng Nghomin Greenham, Molesworth, a lleoliadau Ewropeaidd eraill.

Torri nôl ar daflegrau

Cytunodd yr Unol Daleithau a'r Undeb Sofietaidd i gael gwared o'u holl daflegrau niwclear a chonfensiynol balistig a cruise tir-lansio, gyda chyrhaeddiad o rhwng 500 a 5,500 cilometr. Hwn oedd y tro cyntaf i'r uwch-bwerau gytuno i leihau eu harfogath niwclear, a dileu categori cyfan o arfau niwclear, gan gytuno i arolygu helaeth ar y safleoedd er mwyn dilysu. Dinistriodd yr UD 846 o daflegrau a 32 o safleoedd lansio, a'r Undeb Sofietaidd 1,846 o daflegrau ac 117 o safleoedd erbyn Mehefin 1, 1991.

Rhwystrau a oresgynwyd

Negydwyd y cytundeb er bod yr UD yn hawlio bod y Sofietaid yn tramgwyddo'r Cytundeb Taflegrau Gwrth-Falistig (ABM). Bu negydu'r Cytundeb INF yn llwyddiannus yn gyfrwng magu ymddiriedaeth rhwng y ddwy ochr, sicrhau bod yr Undeb Sofietaidd yn ufuddhau'n llwyr

i'r Cytundeb ABM, a braenaru'r tir ar gyfer y gostyngiad anferth yn arfogaeth niwclear y ddwy wlad a welwyd o dan y Cytundeb START cyntaf.

Cymylau drycin yn ymgasglu

Yn 2007, mynnodd arlywydd Rwsia Vladimir Putin nad oedd y cytundeb bellach o fudd i Rwsia. Yn 2014, cyhuddodd yr Arlywydd Obama Rwsia o dorri amodau'r INF ar ôl profion honedig ar daflegryn cruise tir-lansio. Honnir iddo benderfynu peidio â chefnu ar y cytundeb o dan bwysau gan arweinwyr Ewropeaidd a ddywedodd y gallai'r fath gam ailgychwyn ras arfau.

Ail Ryfel Oer?

Y perygl yw bod yr Arlywydd Trump, trwy gefnu ar y cytundeb INF, wedi tanio'r gwn i gychwyn Ail Ryfel Oer – gwrthdaro a allai fod yn ehangach ac yn fwy peryglus na'r un diwethaf; efallai na fyddwn mor lwcus y tro hwn. Mae Trump eisoes wedi nodi ei fwriad i gynyddu arfogaeth niwclear America, a heb y cytundeb INF, mae gan UDA a Rwsia dragwyddol heol i ddatblygu a lleoli pa daflegrau niwclear a fyynnont heb ddim goruchwyliaeth na thryloywder.

A ydy Rwsia wedi torri'r Cytundeb INF?

Y ffaith amdani yw na wyddom – mae Rwsia hithau'n cyhuddo'r UD o dorri'r cytundeb. Dylem ddefnyddio pob dyfais ddiplomyddol bosib i geisio datrys hyn, yn hytrach nag ailgychwyn ras arfau niwclear y Rhyfel Oer fel ymateb cyntaf. Waeth pwy sydd ar fai neu pwy ddechreuodd anufuddhau i'r cytundeb, nid yw cefnu ar y cytundeb INF o fudd i neb. Mae angen codi uwchlaw rhyw alw enwau plentynnaidd pan fo cymaint yn y fantol, a gwneud yr hyn sy'n gwasanaethu buddiannau pawb.



Na i ras arfau newydd! Gwarchae SAA Burghfield, Mis Hydref 2018 (gweler tud.8)

◀ **PARHAD****Ai China yw gwir asgwrn y gynnen?**

A ydy Trump am gefnu ar y cytundeb am ei fod yn clymu dwylo'r UD parthed China?

Na, dyw hynny ddim yn wir o gwbl. Dywedodd



Brian Jones

I'r dyfodol! Caerdydd yn cefnogi Gwaharddiad Byd-eang. Sesiwn CND yn 60 mis Medi 2018

is-gadeirydd Cyd-benaethiaid Lluedd yr UD y gallant eisoes ddefnyddio taflegrau awyr a môr i ffrwyno China, ac nid yw tynnu allan o'r INF yn hanfodol i anghydfod yr UD a China. Ac mae'n werth cofio bod gan yr UD fwy na 9,000 o arfau niwclear, lle mae gan China ryw 500 – prin bod angen mwy ohonynt ar yr UD!

Y ffordd ymlaen

Rhaid i lywodraeth y DU ac arweinwyr Ewropeaidd eraill ei gwneud hi'n glir ei bod hi'n hanfodol bod UDA yn aros o fewn y cytundeb INF er mwyn atal twf ac ymlediad arfau niwclear. Dylem weithio tuag at sicrhau y ceir gwared o bob arf niwclear o dir Ewrop ac yn ymuno â'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear – mae angen atal y ras arfau niwclear newydd hon trwy gefnogi'r cytundeb hwn.

Does dim enillwyr mewn ras arfau niwclear. Hyd yn oed pe byddem yn ddigon ffodus i osgoi rhyfel niwclear, rydym all ar ein colled wrth i adnoddau gael eu cyfeirio at adeiladu mwy o arfau niwclear yn hytrach nag at ddatrys y problemau gwirioneddol sy'n wynebu'r byd a'i bobloedd.

MYND AM WAHARDDIAD BYD-EANG

Tra bod yr Arlywydd Trump yn sôn am gefnu ar y cytundeb INF, mae rhagor o wledydd wedi arwyddo Cytundeb y CU ar Wahardd Arfau Niwclear. Mae 70 o wledydd bellach wedi arwyddo'r cytundeb, mwy na thraean holl wledydd y byd – ac mae 19 ohonynt wedi cadarnhau'r cytundeb. Bydd gofyn i 50 o wledydd gadarnhau'r cytundeb cyn iddo allu dod i rym.

- Ceir rhestr wedi ei diweddarau'n gyson o wledydd sydd wedi arwyddo'r cytundeb a rhai sydd wedi ei gadarnhau hefyd ar wefan CND Cymru: www.cndcymru.org (clicio ar Gwybodaeth).

Disgwylir i ryw 20 o wledydd sydd wedi arwyddo'r cytundeb ei gadarnhau yn ystod y flwyddyn nesaf – mae cadarnhau yn golygu

deddfu i gynnwys y cytundeb yng nghyfraith y wlad, proses sy'n aml yn cymryd blwyddyn a hanner i ddwy flynedd. Os parheir ar y gyfradd yma, dylai'r 50fed cadarnhad ddigwydd yn ystod 2020. Gobeithio y bydd rhyw 35 o wledydd eraill wedi arwyddo'r cytundeb erbyn hynny, a fyddai'n golygu bod y cytundeb wedi ei gefnogi gan y mwyafrif o wledydd y byd.

heddwethredu:

Mae gwefan CND Cymru hefyd yn rhestru'r gwledydd hynny a bleidleisiodd dros y cytundeb yn wreiddiol ond sydd heb arwyddo eto. Da chi, cysylltwch â'r Llysgenhadaeth berthnasol, yn enwedig os oes gennych gysylltiad personol neu fusnes â'r wlad, a'u hannog i ategu eu pleidlais trwy arwyddo'r cytundeb cyn gynted â phosib.

ANWELEDIG, ANGHOFIEDIG

Mae'r drafodaeth am brojectau niwclear newydd, sifil neu filwrol, bellach oll ynglŷn ag arian a swyddi. Prin bod sôn yn y wasg am y lleiddiad anweledig, ymbelydredd. Jill Gough sy'n ein hatgoffa am y problemau tymor hir.

Cynhyrchir gwastraff ymbelydrol gan bob cam yn y cylch tanwydd niwclear, o gloddio, prosesu a chyfoethogi wraniwm, gweithrediad adweithydd, cynhyrchu ergydion ac ailbroesu tanwydd hesb. Bydd llawer o hyn yn dal yn beryglus am filenia lawer.

• **Problem fawr:** Hyd yn oed heb orsafoedd pŵer neu arfau niwclear newydd, ymdrinir eisoes â mwy na 4.5 miliwn metr giwbaid (4.9 tunnell fetrig) o wastraff ymbelydrol hynod beryglus o gyfleusterau presennol Prydain. Pe câi 10 gorsaf niwclear newydd eu hadeiladu ym Mhrydain, byddai'r gwastraff o'r rhain yn treblu cyfanswm y gwastraff ymbelydrol y bydd angen ei drin. Mae etifeddiaeth yn ymrwymiad marwol y mae ein cymdeithas yn parhau i'w waddoli i blant ein plant, plant eu plant hwythau, yn oes oesoedd bron...

• **Beth sy'n cyrif fel gwastraff?** Ni ystyrir rhai deunyddiau ymbelydrol, fel wraniwm a phlwtoniwm, tanwydd niwclear a thanwydd

niwclear hesb, yn 'wastraff' yn swyddogol gan yr honnir y gellid eu defnyddio yn y dyfodol; cânt eu categorioedd fel 'deunydd ymbelydrol' sydd 'wedi ei storio'n ddiogel'. Ond mae pob sylwedd a fu'n rhan o'r broses niwclear neu a fu mewn cysylltiad ag adweithydd yn debygol o fod yn ymbelydrol.

Mae gwastraff ymbelydrol yn cynnwys nifer o radioniwclidau o waith llaw dyn - cyfluniadau ansefydlog o elfennau cemegol sy'n dirywio a gollwng ymbelydredd ïoneiddiol a all, o'i amlyncu neu o fod yn agos ato, niweidio popeth byw, gan achosi salwch a newidiadau i gelloedd na fydd efallai'n amlwg am sawl cenhedlaeth. Mae gwahanol isotopau ymbelydrol yn para am wahanol gyfnodau, o funudau i gannoedd o filoedd o flynyddoedd.

• **Storio:** Cedwir rhyw 80 y cant o wastraff niwclear Prydain ar safle Sellafield ac yn Drigg yn Cumbria. Codwyd Stordy Gwastraff Lefel Ganolradd yn Nhrawsfynydd. Byddai tanwydd hesb o Wylfa B ddwywaith yn fwy ymbelydrol nag eiddo Wylfa A. Ni ellid ei symud oddi ar y safle am ryw 140 o flynyddoedd. Y dull tymor-hir cyfredol o "ddatrys" y broblem yw claddu gwastraff eithriadol ymbelydrol yn ddwfn dan ddaear. Mae'r cwestiwn a fydd y cynwysyddion, y storfa ei hun, neu'r ddaearog o gwmpas yn cynnig digon o amddiffyniad i atal y radionwclidau rhag dianc yn y tymor hir yn amhosib ei ateb.

• **Cludiant:** Cludir gwastraff niwclear ar y tren yn bennaf o Wylfa A a Thrawsfynydd (sy'n cael eu dadgomisiynu) i Sellafield. Mae trenau neu lorïau niwclear yn teithio trwy gymunedau ac weithiau ar briffyrdd, gyda'r perygl o ddamweiniau neu hyd yn oed ymosodiad terfysgol.

• **Mae Llywodraeth Cymru** wrthi'n chwilio ar hyn o bryd am gymunedau lle gellir storio 650,000 metr giwbig o 'wastraff ymbelydrol etifeddol'. Y (llwgr)wobr yw "cyllid buddsoddi cymunedol blyneddol" yn ystod camau cyntaf y project o rhwng £1m a £2.5m y flwyddyn; honnir y caiff 500 o swyddi parhaol eu creu.
<https://beta.llyw.cymru/gwaredu-gwastraff-ymbelydrol-yn-ddaearog>



Mae ymgyrch gardiau post gyfredol gan PAWB yn nodi y bydd y gwastraff niwclear o Wylfa A yn para i fod yn ymbelydrol ganwaith yn hwy na'r cyfnod y bu'r meini cyfagos o Oes yr Efydd yn sefyll eisoes.

LLONGAU'R LLAID A'R LLACA

Cian Ciarán yn esbonio troeon a throelliadau ymgyrch mwd Hinkley – a sut y mae llywodraeth Cymru wedi bod yn torri ei deddfau ei hun.

• Bûm yn ymgyrchu yn erbyn dympio mwd o orsaf bŵer niwclear Hinkley Point ar domen garthion forol Cardiff Grounds, llai na 2 gilometr o'r brifddinas. Dwi'n credu, yn wyneb diffyg tystiolaeth a'r ansicrwydd ynglŷn â'r deunydd a ddympiwyd gan EdF, ei bod hi'n ofynnol o dan y gyfraith i lywodraeth Lafur Cymru atal y ddrwydded dros-dro.

• Ym mis Mawrth 2018, heriodd yr ymgyngorydd llygredd morol Tim Deere-Jones Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ynglŷn â'i ddibyniaeth ar ganllawiau'r Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol (AYAR), gan ddweud nad oedd rheswm cyfreithiol pam na allai CNC fynnu profion mwy trwyadl. Ni dderbyniodd ateb.

• Ym mis Mehefin darparodd Richard Bramhall o Gynghrair Wrth-niwclear Cymru dystiolaeth i CNC yn dangos bod peryglon iechyd anadlu

gronynnau plwtoniwm ac wraniwm o'r mwd yn llawer mwy na'r hyn a dybiai'r AYAR. Yn yr ohebiaeth ddilynol, nododd Richard mai dim ond safonau isafswm a bennir gan yr AYAR, tra bod y gyfraith yng Nghymru yn gofyn i CNC ystyried pob tystiolaeth berthnasol ac i newid penderfyniadau pe bai hynny'n briodol.

• Yn ôl Bramhall mae'r dystiolaeth yn creu ansicrwydd sylweddol y mae rhaid i CNC weithredu arno yn ôl y gyfraith. Atebodd CNC mai Llywodraeth San Steffan sy'n gyfrifol am ystyried y dystiolaeth, ac mai'r cwbl a wna CNC yw sicrhau y defnyddir safonau rhyngwladol cydnabyddedig.

• Er gwaethaf hyn, dibynnodd CNC ar gam ar hen ganllawiau'r AYAR yn eu hasesiad yn 2018 a chamddehongli rheolau OSPAR (cytundeb amgylchedd morol Gogledd

yr Iwerydd). Cymerwyd samplau craidd annigonol o dan reolau rhyngwladol ac nid oedd y profion yn cwmpasu pob sylwedd ymbelydrol arwyddocaol. Canfu adroddiad CRIIAD ym mis Mai 2018 ameriicwm radio-wenwynig iawn, ac argymhellodd brofion am sawl radioniwclid arall ag allyriant alffa a beta.

• Ar 10 Hydref rhoddwyd cynnig ger bron gan Grwpiau Cynulliad Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr ac fe'i trafodwyd yn y Cynulliad. Ni lwyddodd y ddadl i orfodi Llywodraeth Cymru i syrthio ar ei bai a chollwyd y cynnig – ond mae'r cyhoedd yn haeddu atebion a gweithredu.

• Trwy fethu atal y dympio a thrwy ganiatáu trwydded anghyfreithlon, mae pawb a bleidleisiodd o blaid hyn yn rhan o'r anghyfreithlondeb. Holltodd y bleidlais ar linellau cwbl plaid-wleidyddol. Cefnwyd ar gyfle i herio EdF a swyddogion gwasaid ynglŷn â mwd o Hinkley sydd wedi ei lygru â deunydd niwclear – er i'r Athro Keith Barnham o Imperial College ddarparu tystiolaeth bod y pyllau oeri niwclear sy'n cynnwys llaid o ganiau tanwydd niwclear toredig yn gollwng. Fe'n bradychwyd gan fethiant y Cynulliad i graffu'n effeithiol.



Ymgyrchwyr yn monitro'r gwaith dympio, y disgwylir iddo ailgychwyn wedi'r gaeaf.

DECHRAU ANESMWWYTHO

Mae pobl yng nghyffiniau pentre Cemaes yn poeni wrth i Horizon Nuclear ddod â'r teirw dur i mewn... Adroddiad ar gan PAWB

Rhaid bod y ffaith fod Toshiba wedi tynnu allan o'i gais i godi gorsaf bŵer niwclear newydd yn Moorside yn Cumbria ym mis Tachwedd yn rhybudd ysgytwol i Hitachi, y mae ei is-gwmni Horizon Nuclear yn dal i fwriadu adeiladu adweithyddion newydd yn Wylfa.

Dydy'r rhifydddeg ddim yn gweithio

Pe bai Hitachi yn bwrw ymlaen i adeiladu, sy'n dal yn bur ansicr, mae'n gwbl groes i synnwyr cyffredin economaidd. Yn y byd pen-i-waered hwn, mae lywodraeth Doriaidd yn bwriadu rhoi cymorth anferth o bwrs y wlad i ddiwydiant giami. Gallai gostio efallai £5-10 biliwn i'r trethdalwr.

'Beth am fwrw 'mlaen, cyn cael caniatâd'

Mae cyhoeddusrwydd Horizon mor sgleiniog ag erioed, ond mae maint anferth y safle a'i oblygiadau yn dechrau poeni llawer o bobl leol. Anerchodd

Horizon Nuclear Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn ym mis Medi, gan geisio caniatâd i 'baratoi' safle Wylfa B, heb fod Gorchymyn Caniatâd Datblygu wedi ei roi hyd yn oed. Beth pe na bai Wylfa B yn mynd rhagddo? Mae Horizon yn dweud y byddent yn talu i'r Cyngor wneud y tir yn 'dderbyniol' eto. Beth mae 'derbyniol' yn ei olygu mewn gwirionedd? Dim ond tri munud a gafodd PAWB i godi pryderon, a diystyrwyd gwrthwynebiad cyfreithiol Greenpeace. Dim ond cynghorwyr yn cynrychioli wardiau ger y safle gafodd siarad yn y cyfarfod, ac yn y pen draw cafodd y mesur ei gario yn ddiwrthwynebiad.

Ffermwyr o Fukushima yn ymweld ag Ynys Môn

Mae ymweliadau'r cyfryngau o Japan ag Ynys Môn yn parhau, a chynhelir gwrthdystiadau rheolaidd yn Tokyo yn erbyn Wylfa. Yn sgil ymweliad

PAWB (Pobl Atal Wylfa B) â Japan ym mis Mai 2018, daeth dwy ddirprwyaeth i Gymru i ymuno â'r ymgyrch. Ffermwyr o Fukushima oedd aelodau'r un gyntaf, a buont yn annerch cyfarfodydd cyhoeddus prysur yng Nghemaes, Porthaethwy a Chaernarfon, yn teithio'r safle a'r arfordir, a chyfarfod â'r wasg, amaethwyr a phlant ysgol.

Cydd Japan yn lobbio'r Senedd

Cyflwynwyd yr ail ddirprwyaeth, ym mis Hydref, gan ein ffrind Ayumi Fukakusa, Cyfeillion y Ddaear Japan, grŵp o bum academydd, yn cynnwys Yr Athro Michiko Yoshii o Okinawa a'r Athro Megumi Sakamoto o Brifysgol Fukushima. Ar ôl annerch cyfarfod dan ei sang ym Mangor, siarad â 180 o ddisgyblion 15-oed yn Ysgol David Hughes, aethant ymlaen i Gaerdydd i gyfarfod ag ACau ac ymgyrchwyr gwrth-niwclear. Tra roedd ein hymwelwyr o Japan yma, hedfanwyd dau Gyngorydd Sir o Ynys Môn i Japan i gwrdd â Hitachi. Wnaethon nhw ddim gofyn am gael mynd i Fukushima i gwrdd â goroeswyr y drychineb, na siarad â gwrthwynebwyr niferus project Wylfa yn Tokyo. Roedd ganddynt fusnes i'w gwblhau.

heddweithredu:

Mae deiseb change.org petition gan Cydd Japan a PAWB yn galw am atal cynlluniau niwclear Hitachi ar Ynys Môn. Mae arni angen eich enw!

<https://www.change.org/p/stop-hitachi-s-wylfa-nuclear-project>



Aelodau'r ail ddirprwyaeth o Japan efo ymgyrchwyr PAWB yn ymweld â'r safle Wylfa, Hydref 2018.

RHYFEL HEB DERFYN? 1918–2018

Roedd Tachwedd yr 11eg yn nodi can mlynedd ers y Cadoediad a ddaeth â'r Rhyfel Byd Cyntaf i ben.

Cafodd rhyw 23- 26 miliwn o filwyr eu clwyfo ledled y byd yn y gwrthdaro hwn, a rhwng 8.6 a 10.8 miliwn eu lladd, yn ogystal â rhyw 2.25 miliwn o sifiliaid. Bu farw rhyw 5-6 miliwn pellach o newyn neu glefydau.

Yr etifeddiaeth

Gwelai HG Wells hwn fel 'y rhyfel fydd yn rhoi terfyn ar ryfel'. Ac eto, nid yn unig y methodd Cynhadledd Heddwch Paris 1919 atal penllanw'r lladd ond esgorodd ei hawydd am ddial a'i chynneddfau imperialaidd ar ryfeloedd, anghydfod, rhaniadau ac anghyfiawnderau pellach. Fel rhyw linach erchyll, mae llinellau'r gwaed a dywalltwyd yn diferu i lawr trwy'r ganrif, trwy'r Ail Ryfel Byd (mwy na 60 miliwn yn gelain) i Hiroshima, Corea, Fietnam, i'r rhyfeloedd a andwyodd obeithion y mileniwm – Afghanistan, Irac, Syria a Yemen.

Peiriannau rhyfel

Ym 1961, wrth ymadael â'r swydd, rhybuddiodd Arlywydd

yr UD Dwight D Eisenhower (ie, Gweriniaethwr!) am beryglon 'y cymhleth milwrol-ddiwydiannol', ei derm ef am y gynghrair glòs rhwng gwneuthurwyr arfau, y lluoedd arfog ac wrth gwrs, gwleidyddion – pawb a welai fantais a budd mewn parhau â rhyfel. 'Mae'r posibilrwydd o gynnydd trychinebus mewn pŵer camleoedig yn bodoli', meddai Eisenhower, 'a bydd yn parhau. Ni ddylem byth ganiatáu i bwysau'r cyfuniad hwn beryglu ein rhyddid na'n prosesau democrataidd.'

Dim pen draw

Ysyaeth, parhau i gynnal perthynas wenwynig y cymhleth milwrol-ddiwydiannol wnaeth olynwyr Eisenhower, a llywodraethau San Steffan

hefyd ac, yn wir, Cymru, ond serch hynny, sicrhawyd mesurau diogelwch a therfynau pwysig dros y blynyddoedd o dan y gyfraith ryngwladol. Heddiw, fodd bynnag, ymddengys bod yr Arlywydd Trump yn barod i dynnu allan o'r cytundebau hyn ac ailgreu ras arfau fel pe bai'r Rhyfel Oer heb ddod i ben wedi'r cwbl. Y gofeb fwyaf gweddus i ddioddefwyr 1914-1918 yw adeiladu a chynnal cydweithrediad rhyngwladol a gweithio dros ddarfogi byd-eang a heddwch a fydd yn parhau.

Philip Steele

Dalen yn y Dyfnfor

Ym Mae Colwyn ar 11 Tachwedd 2018, canmlwyddiant y Cadoediad, cerfiwyd portread mawr o'r bardd Hedd Wyn yn y tywod, cyn iddo cael ei olchi ymaith yn araf gan y llanw.

Hedd Wyn oedd wrth gwrs enw barddol Ellis Humphrey Evans (1887-1917), o fferm Yr Ysgwrn, Cwm Prysor, a anfonodd ei awdl Yr Arwr i Eisteddfod Genedlaethol Penbedw o'r Ffrynt Orllewinol. Pan gyhoddwyd y cawsai'r bardd buddugol ei ladd yn Passchendaele wythnosau ynghynt, gorchuddiwyd y Gadair â llen du.

Gyda'i broiect Dalennau yn y Dyfnfor, mae'r cyfarwyddwr ffilmiau Danny Boyle (a raddiodd o Brifysgol Bangor) fel pe bai wedi dyfeisio ffordd heddychlon a myfyrgar o gofio, heb ddrymiau a baneri neu orymdeithio. Roedd safleoedd gofia eraill yn cynnwys Ynyslas, Abertawe, a Freshwater West.



Gwirfoddolwyr y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yng Nghaernarfon, 1912. Faint fyddai'n dal yn fyw ar ddiwedd y degawd?

O FÔN I FYNWY...AROUND WALES...O FÔN I FYNWY

• **Mae'n dda gan CND Cymru**

allu adrodd bod Jill Evans wedi cytuno i ailgydio yng nghadeiryddiaeth CND Cymru. Bu Jill yn gefnogwraig bybyr i ddarfogi erioed, ac yn ymgyrchydd gwrth-niwclear brwd. Fel ASE Plaid Cymru, mae wedi cydweithio'n glòs gyda'r mudiad heddwch ehangach ledled Ewrop a thu hwnt. Ar Ddydd Hiroshima yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, trafododd Jill gyda ni ffyrdd o ennyn cefnogaeth i'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear.

• **Cydgadernid am byth ...**

Carai CND Cymru ddiolch i Gôr Cochion Caerdydd am y symiau maent wedi eu codi a'u cyfrannu'n hael i goffrau CND Cymru eleni. Roeddem yn gwerthfawrogi'n neilltuol eu canu angerddol yn Eisteddfod y Bae ym mis Awst.

• **Ar y 6 Medi 2019, trefnodd**

Plaid Werdd Gogledd-orllewin Cymru brotest llwyddiannus wrth glwydi safle Nuclear Horizon yn Wylfa. Roedd nifer dda yno, a chafwyd anerchiad gan gyd-arweinydd y Gwyrddion, Jonathan Bartley.

• **Dygodd Trident Ploughshares**

warchae llwyddiannus ar SAA Burghfield ar 24 Hydref 2018, i gefnogi'r Cytundeb Gwaharddiad Byd-eang. Yn Sefydliadau Arfau Atomig Burghfield ac Aldermaston y

caiff ergydion niwclear Prydain eu hadeiladu. O'r wyth a restiwyd am ymgloi, roedd pedwar o Gymru: Awel Irene, Jan Jones, Marie Walsh a Brian Jones. Maent oll yn pleidio'n ddieuog.

• **Ar noson dywyll a glawio**

y 7 Tachwedd 2018, cynhaliwyd gwynlos ger y lleiniau glanio yn RAF Valley i brotestio yn erbyn hyfforddi peilotiaid o Saudi Arabia yno – er gwaethaf y lladdfa barhaus a'r gyflafan ddynol yn Yemen. Trefnwyd yr wynlos gan Gymdeithas y Cymod, ac fe'i cefnogwyd gan aelodau o CND Cymru, Veterans for Peace, Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn, Grŵp Heddwch Sir Conwy, Crynwyr Gogledd Cymru a Chymdeithas yr Iaith.

• **Newyddion da! Ar ôl pedair**

blynedd o brotestio cyhoeddus, NI fydd y Ffair Arfau yn dychwelyd i Gaerdydd yn 2019.

Mae'r Fasnach Arfau nid yn unig yn anfoesol, mae hefyd yn wrthgynhyrchol o ran datrys gwrthdaro. Yn ychwanegol at hynny, mae traean o ddyledion gwledydd tlawd y byd yn deillio o fenthycia arian i brynu arfau newydd. Pob cefnogaeth a chydymdeimlad i'r lleoliad newydd, dinas Birmingham.

• **Mae pabïau gwyn sy'n**

anrhydeddu meirwon rhyfel y ddwy ochr, yn ogystal â sifiliaid a gwrthwynebwyr cydwytodol, yn mynd yn cael eu derbyn yn ehangach bob blwyddyn. Yn y cofio yn Aberystwyth ar yr 11 Tachwedd, gwisgodd maer y dref, Talat Chaudhri, babi gwyn wrth ochr yr un coch, a gosodwyd saith torch wen gan Gyngor y Dref, Rhwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth, Côr Gobaith, Aberaid (cefnogi ffoaduriaid), y Crynwyr, Menywod mewn Du a Chôr y Gors.



Pabïau gwyn dros heddwch a osodwyd ar gofeb ryfel Aberystwyth ar 11 Tachwedd 2018.

• **Pawb ar fwrdd y Tren Heddwch, sy'n cefnogi Cytundeb y CU** i Wahardd Arfau Niwclear! Roedd menter Cyngor Heddwch Henffordd i anfon negeseuon a deisebau i lywodraeth San Steffan o Gymru a'r gororau ar fwrdd trenau i Gasnewydd ar 24 Hydref, yn llwyddiant mawr. Bu Mary Millington yn casglu llofnodion ar orsafoedd rhwng Aberyswtyth a'r Drennewydd, ac anfonwyd negeseuon o arfordir gogledd Cymru, trwy Gaer. Roedd llawer o lofnodion wedi cael eu casglu gan CND Cymru yn Eisteddfod Caerdydd. Cyfarfu côr â'r tren yn y Fenni.



Mae'r Tren Heddwch yn ymadael Caer, gyda negeseuon o Lerpwl, Conwy a Llandudno.

• **Swyddi nid Bomiau** oedd thema ysgol undydd a gynhaliwyd yn Abertawe ar 3 Tachwedd 2018 gan grŵp CND Cymru sydd newydd ei ffurfio y tu fewn i Blaid Lafur Cymru. Roedd hanner cant o bobl yno. Dyma un o'r sylwadau a adawyd ganddynt: "Dylai Undebau Llafur (a ninnau oll) wneud safiad moesol ar yr hyn sydd orau i bawb, nid codi ofnau tymor-byr ynglŷn â cholli swyddi. Ac mae'n rhaid i ni gymryd o ddifri unrhyw gyfleoedd i greu swyddi sy'n gofyn sgiliau ym maes ymgodymu â newid hinsawdd i gymryd lle swyddi medrus yn y cymhleth milwrol-ddiwydiannol – fel nad yw gwahardd niwclear yn gyfystyr â cholli swyddi."

Paul Flynn

Drwg gennym glywed ym mis Hydref fod Paul Flynn yn bwriadu ymddeol oherwydd iechyd bregus. Bu Paul yn AS Llafur Gorllewin Gasnewydd, ac yn aelod o CND Cymru ers degawdau. Diolch iddo am ei gefnogaeth dros flynyddoedd lawer a dymunwn yn dda iddo.
Meddai John Cox.

Roedd Paul a minnau yn yr ysgol yng Nghaerdydd yr un pryd (yntau yn St Illtyd, finnau yn Ysgol Uwchradd Cathays). Flynyddoedd wedyn, pan gwrddon ni ar y Maes, fe'm hatgoffodd (gan gymeradwyo) i mi herio Gweinidog dros Faterion Tramor a oedd, mewn Cynhadledd 6ed dosbarth i ysgolion Caerdydd ar ddydd

y Cenhedloedd Unedig, ym 1952(?), wedi amddiffyn defnyddio napalm yn erbyn sifiliaid yn rhyfel Corea. Mae Paul wedi gwrthwynebu rhyfeloedd (imperialaidd, os caf fod mor hy) ar hyd ei oes wleidyddol, yn hynod o effeithiol pan ddatgelodd oferedd y rhyfel yn Afghanistan.

Roedd Paul ymhell ar y blaen i'r rhan fwyaf o'r chwith ar faterion gwyrdd a gwrth-niwclear. Pe na bai'r Blaid Ecoleg (a'r Blaid Werdd wedi hynny) wedi cael eu creu i herio'r Blaid Lafur, mae'n bosib y byddai ei ymdrechion i gael y Blaid Lafur i fabwysiadu agenda werdd wedi dwyn ffrwyth ddegawdau ynghynt. Bu Paul yn gwrthwynebu arfau niwclear erioed, a rhoi cefnogaeth gwbl

ddibynadwy i ymgyrchoedd CND.

Mae Paul yn fwy difyr a threiddgar na'r rhan fwyaf o wleidyddion – mae ei flogiau bob amser yn werth eu darllen, heb nemor ddim hunan-frolio. Mae wedi ymgyrchu'n ehangach na'r rhelyw (yn enwedig yn ei ymgyrch o blaid caniatáu canabis at ddibenion priodol) ac (heb swnio'n rhy snobyddlyd) mae ei orwelion diwylliannol yn ehangach na'r rhelyw. Yn annisgwyl, fel gwleidydd Llafur, gwnaeth ymdrech i ddysgu'r Gymraeg yn ddigon da i gael gwadd i ddadleuon ar S4C, ac mae wedi cefnogi pob mesur i gryfhau dadganoli yn gyson.

Dwi'n falch o fod wedi adnabod Paul Flynn ers ein dyddiau ysgol.

LLYFR GLAS NEBO

Manon Steffan Ross. 143 tud, Y Loffa 2018 £8.99

Dyma'r llyfr y mae pawb yn sôn amdano wedi iddo ennill y Fedal Ryddiaith eleni. 'Ynni' oedd testun y gystadleuaeth, a dipyn o her yw sgwennu nofel atyniadol am hynny.

Dychmygodd Manon sut fyddai hi go iawn petai damwain yng ngorsaf y Wylfa a disgrifio'r byd post-damwain-niwcliar hwnnw yw ei champ. Does dim gair am y dadleuon o blaid nac yn erbyn. Dim ond mam a'i phlant yn ceisio goroesi.

O glywed y testun, dychmygais ymweld ag Ysgol Nebo sydd wrth fy nghartref a rhoi cip ar destun llenyddol iddynt. Wedi ei darllen, fedra i ddim, mae'n fyd rhy ddychrynlyd. Fel llyfr i bobl

ifanc y'i bwriadwyd, a gorau po fwyaf fydd yn ei ddarllen. Mae'n llyfr sydd wedi cydio yn nychymyg y genedl.

Pam? Am ei fod o'n sci-fi ddigon agos at realiti. 2026 ydi blwyddyn y llyfr, yn 2018 y digwyddodd Y Terfyn. Mae'r rhai a oroesodd wedi ffoi, does dim siopau, dim bwyd oni bai eich bod yn gallu ei dyfu eich hun. Mae nam ar anifeiliaid, ond yn waeth na dim mae'r unigrwydd yn llethol.

Yng nghanol hyn i gyd, mae Sion sy'n bymtheg oed yn ceisio gwneud synnwyr o'r byd. Ar adegau, roedd rhaid i mi adael y llyfr, mynd allan i'r awyr iach, a bod yn ddiolchgar mod i'n byw cyn Y Terfyn. Fel mam i hogyn pymtheg oed sy'n byw ger Nebo ac yn poeni am 'blydi Wylfa',

Enillydd y Fedal Ryddiaith 2018

Llyfr
Glas
Nebo

Manon Steffan Ros

roedd o'n angyfforddus o bosib. Y tro nesaf y bydd rhywun yn deud wrthyh fod yn rhaid derbyn cynlluniau Wylfa Newydd oherwydd y realiti economaidd a'r cyfle am swyddi – rhowch 'Llyfr Glas Nebo' yn ei dwylo. Dylai fod yn ddigon.

Angharad Tomos

RIGHTEOUS ANGER

Juley Howard gyda Faith Moulin

368 tt., 2017, £8.99 neu £10 yn cynnwys cludiant, oddi wrth brian.jones@phonecoop.coop

Dwi'n cofio gorfod stopio'r car pan glywais ar newyddion Radio 4 bod tair menyw o Brydain roeddwn i'n eu nabod wedi atal prawf arfau niwclear gan Brydain yn anialwch Nevada . . .

Aeth Juley Howard, disgybl chweched dosbarth difrif a diffuant oedd am astudio crefydd a gwleidyddiaeth, i Wersyll Heddwch Menywod Comin Greenham gyntaf yn Rhagfyr 1983; cyn hir roedd yn byw yno.

Mae'r gyfrol hon, yn seiliedig ar ddyddiaduron Juley, yn rhoi safbwynt un fenyw ar weithredu'n ddi-drais yn erbyn arfau niwclear gan gofnodi ei hatgofion manwl am fywyd beunyddiol yn y Gwersyll.

Mae'n disgrifio bywydau a gweithredoedd y menywod, creulondeb y troi allan cyson, ei hymddangosiadau mynych yn y llys a'i phrofiadau yn y carchar. Manteisiodd Juley ar gyfleoedd i deithio ac ymweld â gwledydd eraill hefyd – yn cynnwys cynhadledd yn Libya lle cafodd hi a ffrind yn ei harddegau eu cloi mewn stafell gyda'r Cynol Gaddafi a siaradodd am deirawr, yn ogystal â Chanolbarth

America ryfelgar a gogledd Canada frodorol. Achosodd argyhoeddiadau gwrth-niwclear Juley iddi gefnogi llwyth brodorol y Western Shoshone sydd wedi cael eu hecsploetio a'u dadleoli gan brofion niwclear yr UD a Phrydain ar eu tiroedd brodorol, a arweiniodd at y weithred y cyfeirir ati uchod. Mae'r llyfr hwn yn adrodd hanes unigryw bywyd menyw hynod, ond cyffredin, yng nghynnwrf gwleidyddol a chymdeithasol oes Thatcher. Roedd ei ddarllen yn fy atgoffa yn fyw iawn o sut deimlad oedd bod yn rhan o ymgyrchu gwrth-niwclear yn y 1980au.

Brian Jones

MY NUCLEAR NIGHTMARE: *Leading Japan through the Fukushima Disaster to a Nuclear-free Future*
Naoto Kan


200tt, Gwasg Prifysgol Cornell,
2018, £18.99 (cyfieithad o'r
Siapanaeg gan Jeffrey S Irish)

Rhoddodd Naoto Kan ei lyfr i mi pan oeddwn yn cynrychioli PAWB ar ymweliad â Fukushima ym Mai 2018. Mae 'hunllef' y teitl yn cyfeirio at ei brofiad a'r penderfyniadau y bu'n rhaid iddo'u gwneud yn ystod y drychineb barhaus ym Mhwerdy Niwclear Daiichi Fukushima – hunllef cwbl ddirybudd a darodd genedl a oedd yn sicr bod eu pŵer niwclear yn ddiogel.

Mae ymateb pitw'r Asiantaeth Diogelwch Niwclear a Diwydiannol a TEPCO, perchenogion yr orsaf, i'r drychineb yn tanlinellu pam mor ddiymgeledd rydym oll yn wyneb anhap niwclear, am y rheswm syml nad yw'r rhai sy'n gyfrifol am orsafoedd niwclear yn rhagweld y bydd

damwain, ac felly heb baratoi ar gyfer y fath beth. Ni all, neu ni fyynn, ein hawdurdodau wneud yr hyn y bu'n rhaid i Naoto Kan ei wneud: "Dychmygu [fy mhwyslais i] pobl yn methu byw o fewn radiws o 250 cilometr (155 milltir) o'r gwaith am ddwsinau o flynyddoedd." Mae'n disgrifio â grym iasoe'r sut, "wedi Mawrth 11, 2011, roedd dwyrain Japan wedi ei meddiannu gan elyn anweledig o'r enw ymbelydredd ... gelyn yr oeddem ni ein hunain wedi ei greu."

Mae Naoto Kan yn amlinellu'n ingol sut roedd Japan, a hithau wedi cytuno ar ôl Rhyfel y Môr Tawel na ofynnid byth eto i sifiliaid aberthu eu bywydau eu hunain dros eu gwlad, wrthi unwaith eto'n trefnu "sgwadiau kamikaze" i fynd i mewn i'r chwalfa. Mae'r rhain yn ddatgeliadau ysgytwol. Dylai unrhyw rai sy'n ansicr



o'u safbwynt ar bŵer niwclear newydd ddarllen yr hanes hwn, a sgrifennwyd â dewrder a gwyleidd-dra gan ddyn sy'n dal i gario baich y digwyddiadau arswydus hyn, er nad yw mewn grym bellach.

Saif Naoto Kan fel llais clir a phwerus yn erbyn peryglon pŵer niwclear, a thros ddyfodol lle bydd ynni adnewyddadwy yn ateb galwadau domestig ac yn creu swyddi newydd.

Linda Rogers

APÊL

Fy enw i yw Bethan Siân a dwi'n fyfyrwraig ymchwil yn yr adran Hanes a Hanes Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae fy PhD yn edrych i mewn i'r mudiad heddwch yng Nghymru yn ystod blynyddoedd y Rhyfel Oer, 1979-1989.

Hanes llafar ydy brif ffynhonnell y PhD - ac felly rwy'n awyddus i recordio hanesion rheini a fu'n rhan o'r mudiad. Os oeddech chi'n rhan o'r mudiad heddwch yng Nghymru'r 80au ac yn hapus i rannu eich profiadau gyda fi, cysylltwch â mi os gwelwch yn dda.

Fy nghyfeiriad e-bost ydy bsj1@aber.ac.uk, neu ysgrifennwch ataf:

Swyddfa 0.06, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Prifysgol Aberystwyth. SY23 3FE. Diolch.

Sarah Hipperson

1927 – 2018

“Roeddwn yn fam, a dwi'n nain bellach, ond mae gennym oll fywyd ein hunain. Teimlwn fod gen i job i'w wneud yn Greenham”

Ym mis Hydref, collasom ffrind annwyl a gweithredwraig arall. Bydd y rhan fwyaf ohonom yn cofio Sarah o'r blynyddoedd hynny yn y gwersyll heddwch wrth Brif Glwyd gwersyll Comin Greenham. Am fwy na 40 mlynedd, ymroes Sarah i'r gwaith o greu byd di-niwclear, cyfiawn a heddychlon, gan hysbysu CND Cymru a'r Côr Cochion beunydd am ddigwyddiadau a datblygiadau yn Greenham.

Roedd Sarah yn “weithredwraig” mewn llawer maes – yn fam, nain, bydswraig, ynad, ymgyrchydd dros heddwch a chyfiawnder ac awdur, Sgrifennodd yn ddiweddarach nad yw “gweithredu di-drais yn rhwydd - nac yn ddewis hawdd”. Cynrychiolai ei hunan yn y llys, gan alw unrhyw bolisi niwclear yn “anghyfreithlon, anfoesol a

gwallgof”. Credai mai ei phrofiadau plentyndod o gyrchoedd awyr adeg-rhyfel yn Glasgow a blannodd hadau ei hymwybyddiaeth wleidyddol. Yn ddiweddarach hyfforddodd fel nyrs a bydswraig, symudodd i Ganada a phriodi a chael plant.

Yn ôl ym Mhrydain, gwasanaethodd fel ynad. Gorymdeithiodd gydag CND a chyd-sefydlu Catholic Peace Action. Gweithred uniongyrchol ddi-drais gyntaf Sarah oedd gwasgaru gwaed a lludw y tu allan i'r WA yn Llundain, i symboleiddio canlyniadau rhyfel niwclear. Arweiniodd hynny at y cyntaf o'i 22 dedfryd o garchar mewn 17 mlynedd.

Tra'r oedd yn y gwersyll heddwch tan iddo gau yn 2000, parhaodd Sarah i weithio i sefydlu Gardd



Sue Lent

Goffa Heddwch ar y safle. Yn Greenham Common: Non-Violent Women v The Crown Prerogative (2005) cofnodd ei hamryw heriau cyfreithiol a'i siwrnai oes tuag at weithredu di-drais. Wrth i Wersyll Heddwch Greenham gau am y tro olaf, dywedodd Sarah wrthym:

“Mae'n hamser yn Greenham yn brofiad na faswn i byth am fod hebdo.

“Teimlaf yn freintiedig iawn. Dwi ddim yn credu y gallaswn fod wedi treulio'r rhan hon o'm bywyd mewn gwell ffordd.”

Nyni oedd yn freintiedig i fod wedi cael ymgyrchu ochr yn ochr â Sarah.

Jill Gough

John Large

1943 – 2018

Roedd Dr John Large yn gyfaill cadarn a chefnogol iawn i'r mudiad gwrth-niwclear a gwelwn ei golli yn fawr. Er ei fod wedi cyngori llywodraethau yn rhinwedd ei waith fel peiriannydd niwclear annibynnol, nid oedd yn gwrthod helpu grwpiau ymgyrchu fel PAWB a Stop Hinkley yn eu brwydrau hir yn erbyn y diwydiant niwclear. Cofiw'n iddo ddod i Neuadd Bentref Cemaes yn y 90au i roi cyflwyniad i ni ar beryglon y broses ddadgomisiynu.

Wedy'n ar ddiwedd 2001 pan oedd

adweithyddion y Wylfa yn segur oherwydd craciau yn y weldiau dur, ysgrifennodd adroddiad yn rhybuddio pam na ddylid defnyddio tanwydd dwysach Magnox yn lle'r tanwydd Magnox mewn adweithyddion oedd eisoes yn hen. Mae'n rhaid fod ei rybuddion wedi cael effaith oherwydd dal i rygnu ymlaen gyda thanwydd Magnox wnaeth adweithyddion y Wylfa dros ddegawd olaf eu hoes. Pan glywsom fod Hitachi wedi prynu cwmni Horizon yn Hydref 2012 a'u bod yn dymuno codi eu hadweithydd dŵr berwedig yma, John oedd yr un i droi ato ar unwaith i gael cadarnhad

mai cynllun hen ffasiwn oedd hwn, sef addasiad o'r adweithyddion a ffrwydrodd yn Fukushima yn 2011, ac y byddent yn defnyddio wraniwm wedi ei gyfoethogi yn yr adweithyddion gan greu gwastraff llawer poethach a mwy ymbelydrol. Roedd John yn gwmniwr ffraeth a chynnes a baint oedd cael ei gymorth yng nghanol ei brysurdeb mewn sawl gwlad. Dyna oedd ei gamp fawr sef cofio am y brwydrau ar lawr gwlad yn y cymunedau, a bod y gwaith hwnnw llawn mor bwysig â chynghori llywodraethau. Mae ein dyled yn fawr iddo.

Dylan Morgan

Gwyn Griffiths 1941 - 2018

Roedd ein cymrawd Gwyn Griffiths, a fu farw ym mis Awst, yn weithredydd gwleidyddol ar hyd ei oes. Ymgyrchodd Gwyn nid yn unig yn erbyn arfau niwclear ac o blaid heddwch a chyfiawnder cymdeithasol ond hefyd fel aelod o Blaid Gomiwnyddol Cymru, dros yr iaith Gymraeg ac ym mudiad gwrth-apartheid Cymru.

Bydd llawer yn cofio Gwyn mewn protestiadau a chynadleddau. O Geredigion yn wreiddiol, aeth ei waith ag ef o Urdd Gobaith Cymru yn y 1960au, i fod yn swyddog y wasg dros BBC Cymru ac yna'n awdur llawrydd, gan gynnwys sgrifennu ar gyfer Y Cymro a'r Morning Star, a dod o hyd i amser hefyd i ymchwilio,

sgrifennu a chyhoeddi erthyglau a llyfrau.

Ymhlith y 25 cyfrol a gyhoeddodd yn ystod ei fywyd, i ni a oedd yn dysgu am etifeddiaeth Cymru o frwydro dros heddwch a chyfiawnder rhyngwladol, roedd yna ddwy gyfrol i'w croesawu: Henry Richard – Apostle of Peace and Welsh Patriot (2012) a Henry Richard – Heddychwyr a Gwlatgarwr (2013), a adolygwyd ar y pryd yn Heddwch. Cawsai Gwyn Griffiths ei fagu yn Swyddfynnon, ger Tregaron, y dref lle ganed a magwyd Henry Richard.

Yng Ngŵyl Geltaidd L'Orient y flwyddyn nesaf, bydd aelodau o deulu Gwyn yn derbyn



Golwg 360

ar ei ran Urzh an Erminig (Urdd y Carlwm), anrhydedd diwylliannol uchaf Llydaw, i gydnabod ei gyfraniad o ran datblygu a chryfhau'r clymau hanesyddol rhwng Cymru a Llydaw.

Yn ddyn gwylaid ac addfwyn, yn gefnogwr pybyr a chyson i CND Cymru, gwelir ei golli gan ei gymrodyr ac aelodau CND Cymru.

Jill Gough

Genny Bove 1962-2018

Y llun parhaol sydd gennyf o Genny yw ohoni mewn digwyddiad heddwch yn ei siorts a'u sgidiau cerdded, ag un o'i

baneri gwaith-llaw lliwgar y tu ôl iddi.

Ganed Genny yn Hendon, Llundain ar y 27 Chwefror 1962. Roedd yn 16 oed pan gyfarfu â'i phartner Alan, perthynas a fyddai'n para am ddeugain mlynedd. Symudodd Genny ac Alan i Ddyffryn Moss yn Wrecsam a ganed eu merch Libby ar Fawrth 1af 1991.

'Genny oedd un o'r ymgyrchwyr Heddwch a Chyfiawnder dycnaf a mwyaf angerddol i mi weithio ochr yn ochr â nhw, p'run ai wrthi'n gwneud ei baneri godidog, yn dysgu ei merch Libby gartref, brwydro dros hawliau anabledd gweithwyr,

mynd yn ffrind i deulu Chelsea Manning yn Sir Benfro, neu sefydlu fforwm weithgar iawn Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam a'i gwefan.' (Jill Gough). Collodd Cymru, a'r DU, ymgyrchwraig angerddol dros heddwch a chyfiawnder ar adeg pan mae mwy o angen pobl felly nag erioed.

O'r hyn y mae'n ei adael ar ei hól, credaf mai'r modd y mae ei merch Libby yn byw ei bywyd mewn ffordd mor egwyddorol yw'r deyrnged fwyaf i Genny. Boed i ti orffwys mewn heddwch, Genny, gan i ti ymgyrchu mor ddewr drosto yn dy fywyd.

Mair Jones



Golwg 360

CND CYMRU

Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.



www.cndcymru.org
heddwch@cndcymru.org
trydar: @cndcymru
gweplyfr: cndcymru

CYSYLLTIADAU**Brian Jones**

01792 830 330
brian.jones@phonecoop.coop

Duncan Rees

07774 268 371
Duncan.rees01@gmail.com

Philip Steele

01248 490 715
phil_steele@btinternet.com

John Cox

01495 773 495
drjohncox121@gmail.com

TRYSORYDD, AELODAU AC AELODAETH GRŴP:**Michael Freeman,**

CND Cymru,
9 Primrose Hill, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SE
michael.freeman9@btinternet.com

YSGRIFENYDD CENEDLAETHOL:

C/o Llys Gwyn,
Glynarthen, Llandysul, SA44 6PS
01239 851 188

HEDDWCH

yw cylchgrawn yr
**Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng
Nghymru** (CND Cymru)

Golygydd:

Philip Steele
phil_steele@btinternet.com

Cyfiethydd:

Siân Edwards
sian@siandefynnog.wales

Cynhyrchu a phostio:

Redkite Print
jon@thefreeflyer.com

Nid yw cynnwys **HEDDWCH** o anghenraid yn adlewyrchu barn neu bolisiau C N D Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth.

Anfonwch unrhyw sylwadau, cyfraniadau neu ddyddiadau am ddigwyddiadau at y golygydd.

Bydd y rhifyn nesaf yn ymddangos yng Ngwanwyn 2019.



Ymgyrchwyr yn erbyn Wylfa B o Japan yn cwrdd â Leanne Wood AC (Plaid Cymru) a'r ymgyrchydd yn erbyn mwd Hinkley Cian Ciarán yn y Senedd.